Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Mai 2019

Amser: 09.21 – 11.52

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5540

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AC Mike Hedges AC Rhianon Passmore AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Julie Morgan AC, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Karen Cornish, Llywodraeth Cymru Sarah Canning, Llywodraeth Cymru Howel Jones, Local Partnerships Rosie Pearson, Local Partnerships David Ward, Tirion Group
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Glerc) Ryan Bishop (Dirprwy Glerc) Christian Tipples (Ymchwilydd)

	Owen Holzinger (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC a Neil Hamilton AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Cyllidebau atodol 2019-20 - 30 Ebrill 2019.

2.2 PTN2 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit - Bil Deddfwriaeth (Cymru) - Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor - 3 Mai 2019

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit mewn ymateb i'w lythyr.

3 Y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Julie Morgan AC, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Plant a Theuluoedd; a Sarah Canning, Pennaeth y Gangen Deddfwriaeth, Ymchwil a Rhianta, ar oblygiadau ariannol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Rhesymol) (Cymru).

3.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth ar sut yr amcangyfrifwyd nifer yr achosion o gosb resymol a adroddwyd i'r heddlu a sut y mae hyn yn gysylltiedig â nifer yr erlyniadau yng Nghymru bob blwyddyn.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 7-9 ac ar gyfer dechrau'r cyfarfod ar 15 Mai 2019

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 3

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Ward, Prif Weithredwr, Grŵp Tirion; Howel Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Rhaglenni a Phrosiectau, Partneriaethau Lleol; a Rosie Pearson, Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Busnes, a Chyfarwyddwr Rhaglen PPP a PFI, Partneriaethau Lleol, ar ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

7 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Taliadau cadw yn y diwydiant adeiladu

8.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

9 Comisiwn y Cynulliad - Diweddariad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a Llacio Cap y Sefydliad

9.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gomisiwn y Cynulliad ynghylch y diweddariad ar y cynllun ymadael gwirfoddol a llacio cap y sefydliad.